# PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

## BLAEN RAGLEN WAITH

**28 Mehefin 2017**



| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Marion Pryor |
| | Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg |
| E-Bost: | MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| Ffôn: | 01248 756211 |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (yn cynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **28 Mehefin 2017** | **Adroddiad Drafft y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 ynglŷn â'r Adroddiad Ariannol a Llywodraethu Blynyddol 2016/17** | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **28 Mehefin 2017** | **Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16**<br>Adrodd ar gynnydd mewn perthynas â'r argymhellion a gynhwysir yng Nghynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2015/16. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **28 Mehefin 2017** | **Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2016/17**<br>O dan Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus mae gofyn i'r prif swyddog archwilio ddarparu barn archwilio mewnol flynyddol ac adroddiad y gall y Cyngor ei ddefnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu. Mae'n rhaid i'r farn archwilio fewnol blynyddol benderfynu ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith y Cyngor yn ei gyfanrwydd ar gyfer llywodraethu, rheoli a thrin risg.<br><br>Adroddiad gan y cyn-Reolwr Archwilio ynglŷn â chanlyniad y gwaith archwilio mewnol a wnaethpwyd yn ystod 2016/17. | **Rheolwr Archwilio**<br>SionedParry@ynysmon.gov.uk |
| **28 Mehefin 2017**<br>**25 Gorffennaf 2017**<br>**21 Medi 2017**<br>**5 Rhagfyr 2017**<br>**13 Chwefror 2018** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol**<br>Adroddiad diweddaru ar gynnydd yr uned Archwilio Mewnol o ran cyflenwi gwasanaeth, datganiad o sicrwydd, adolygiadau a gynhaliwyd, perfformiad ac effeithiolrwydd o ran arwain gwelliant | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (yn cynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **28 Mehefin 2017** | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol ar faterion penodol:**<br>• Diogelu Corfforaethol<br>• Adfer Trychineb TGCh<br>• Gwasanaethau Plant – adroddiad AGGCC | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **28 Mehefin 2017** | **Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus (PSIAS) – Asesiad Allanol a Chynllun Gweithredu**<br>Ystyried yr adroddiad a gyhoeddwyd yn dilyn asesiad allanol gan y cyn-Bennaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Sir Ddinbych a Chynllun Gweithredu'r Pennaeth Archwilio a Risg a ddatblygwyd i ymateb i'r meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |
| **28 Mehefin 2017** | **Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2017/18**<br>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wneud sylwadau ar gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17 a chyfrannu at yr arfarniadau, casgliadau ac argymhellion a gynigir er mwyn datblygu ymhellach neu gryfhau elfennau ar drefniadau llywodraethu'r Cyngor yn ystod 2017/18. | **Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |
| **25 Gorffennaf 2017**<br>**13 Chwefror 2017** | **Cofrestr Risg Corfforaethol**<br>Ystyried y risgiau corfforaethol y manylir arnynt yn y Gofrestr. | **Rheolwr Yswiriant a Risg**<br>JulieJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017**<br>**13 Chwefror 2018** | **Cynnydd mewn perthynas ag Adroddiadau Rheoleiddio Allanol**<br>Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried y cynnydd a wnaethpwyd mewn perthynas ag Adroddiadau Rheoleiddio Allanol, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â materion llywodraethu neu reoli risg o fewn y Cyngor. | **Rheolwr Rhaglen, Rheoli Busnes a Pherfformiad**<br>GethinMorgan@ynysmon.gov.uk |

| Dyddiad | Pwnc | Swyddog Cyfrifol (yn cynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **21 Medi 2017** | **Adroddiad Rheoli Trysorlys Hanner Blwyddyn ar gyfer 2017/18**<br>Bydd yr adroddiad yn manylu ar safle'r Cyngor mewn perthynas â chydymffurfio â'i Strategaeth Rheoli Trysorlys a Strategaeth Buddsoddi. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa bresennol ynglŷn â buddsoddiadau a benthyca. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017** | **Gweithgarwch Rheoli Trysorlys a Gwir Ddangosyddion Darbodusrwydd ar gyfer 2017/18**<br>O dan weithdrefnau adrodd y Cyngor, mae'n rhaid darparu adroddiad trysorlys blynyddol sy'n rhoi sylw weithgarwch trysorlys ar gyfer 2017/18. Mae'r adroddiad yn cyfeirio hefyd at y gwir Ddangosyddion Darbodusrwydd ar gyfer 2017/18 yn unol â gofynion y Côd Darbodusrwydd. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017** | **Ymchwiliadau Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor**<br>Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi manylion am y ceisiadau a gafodd eu harchwilio'n llwyddiannus gan y Tîm Ymchwilio Budd-daliadau. | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |
| **21 Medi 2017** | **Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ynglŷn â'r Adroddiad Ariannol a Llywodraethu 2016/17**<br>Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu sydd â'r dasg o gymeradwyo'r cyfrifon ar ran y Cyngor. O'r herwydd, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu:<br>• gymeradwyo'r Adroddiad Ariannol a Llywodraethu 2016/17, yn cynnwys y Datganiad o Gyfrifon 2016/17,<br>• derbyn adroddiad yr Archwiliwr Dynodedig ar y cyfrifon a'r Safon Archwilio Ryngwladol (ISA) 260, ac i<br>• gymeradwyo'r Llythyr Sylwadau Terfynol | **Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>MarcJones@ynysmon.gov.uk |

| **Eitemau ar gyfer y dyfodol** | | |
|---|---|---|
| **Mawrth 2018** | **Strategaeth Archwilio Fewnol a Chynllun Blynyddol 2018/19**<br>O dan y Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2017, mae'n rhaid i'r Prif Swyddog Archwilio gyflwyno Strategaeth Archwilio Fewnol a Chynllun Blynyddol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu er cymeradwyaeth. | **Pennaeth Archwilio Mewnol a Risg**<br>MarionPryor@ynysmon.gov.uk |